# Camau Gweithredu ar gyfer Ymarfer Cyffredinol, Fferylliaeth, Optometreg a Deintyddiaeth

Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

| MEWNBYNNAU | Arweinyddiaeth a Diwylliant | Rheoli Data ac Iechyd y Boblogaeth | Cyllid ac Adnoddau | Y Gweithlu | Cynnwys y Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|
| CAMAU GWEITHREDU | Penodi Hyrwyddwr Tegwch Iechyd i ysgogi camau gweithredu ar leihau anghydraddoldebau iechyd a hyrwyddo gofal cynhwysol, cymwys yn ddiwylliannol , ac sy'n ystyriol o drawma.<br><br>Hyrwyddo diwylliant sy'n galluogi perthnasoedd llawn ymddiriedaeth, heb farnu rhwng cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.<br><br>Nodi dulliau ar gyfer apwyntiadau sy'n cefnogi parhad gofal a mynediad. | Archwilio a nodi cleifion â dangosyddion allweddol coll ar gyfer CHD a Diabetes (e.e., HbA1c, pwysedd gwaed, colesterol, statws ysmygu, BMI).<br><br>Cryfhau rhaglenni brechu ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed – yn cynnwys plant mewn tai â chymorth.<br><br>Safoni a gwella cofnodion data cydraddoldeb.<br><br>Dadgyfuno neu archwilio yn ôl mesurau anghydraddoldeb iechyd (e.e. amddifadedd lleiaf, ethnigrwydd), i lywio trafodaethau clwstwr ac i gefnogi ymyriadau wedi'u targedu.<br><br>Defnyddio gwybodaeth gymunedol i ddatblygu syniadau o 'ddiffyg' data a chleifion<br><br>Sicrhau bod prosiectau gwella ansawdd yn canolbwyntio ar yr amodau sy'n cyfrannu fwyaf at anghydraddoldebau iechyd a phan fo tystiolaeth o effaith. | Nodi a mynd ar drywydd cyfleoedd ariannu ar y cyd gydag awdurdodau lleol, partneriaid yn y trydydd sector, a chymunedau.<br><br>Cydlynu cyllid ar draws sectorau i wella effaith adnoddau.<br><br>Sicrhau bod dulliau ariannu yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a galluogi modelau buddsoddi ar y cyd sy'n cefnogi canlyniadau tegwch hirdymor. | Diogelu amser dysgu ar gyfer hyfforddiant anghydraddoldebau (yn cynnwys Teg i Bawb, Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC)) ar gyfer yr holl staff clinigol ac anghlinigol.<br><br>Gofyn i bob dechreuwr newydd gwblhau hyfforddiant a all helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd, yn cynnwys Teg i Bawb a MECC.<br><br>Parhau i feithrin ymwybyddiaeth staff o drawma, gofal sy'n ystyriol o drawma ac ail-drawmateiddio<br><br>Cydweithio â phartneriaid ar draws y Clwstwr i nodi cyfleoedd ar gyfer recriwtio a phrentisiaethau lleol mewn Gofal Sylfaenol.<br><br>Creu amgylchedd sy'n grymuso lle mae staff yn cael eu cefnogi i weithredu ar:<br><br>sicrhau parhad gofal pan fo angen a lle bo angen<br><br>bod yn rhagweithiol wrth wneud apwyntiadau dilynol pan fydd cysywllt â chleifion<br><br>cynnig dull ac amser amgen ar gyfer ymgynghoriadau a chamau dilynol ar apwyntiadau pan nad oedd claf yn bresennol (DNA)<br><br>ymgysylltu â gweithwyr cymorth a phartneriaid yn y sector gwirfoddol i nodi a defnyddio cymorth i'r gweithlu | Sefydlu ffyrdd o ymgorffori adborth cleifion yn rheolaidd mewn ymarfer o ddydd i ddydd, yn cynnwys gan leisiau nas clywir yn aml.<br><br>Datblygu a gweithredu mecanweithiau adborth i gofnodi profiad cleifion sy'n gysylltiedig â mynediad, gwahaniaethu ac anghenion heb eu diwallu.<br><br>Sicrhau amryfal lwybrau mynediad at wasanaethau, a dulliau darparu amrywiol, yn cynnwys wyneb yn wyneb, dros y ffôn, ap, y we ac allgymorth.<br><br>Cyd-ddatblygu gwasanaethau gyda phartneriaid lleol a chleifion i wella mynediad at ofal.<br><br>Lle bo'n briodol, darparu gwasanaethau allgymorth ar y cyd, fel clinigau iechyd symudol gyda phartneriaid lleol i wella'r mynediad i boblogaethau agored i niwed<br><br>Defnyddio adnoddau Teg i Bawb i lywio eich polisïau ymarfer sy'n ymwneud â hygyrchedd a chynhwysiant. |